**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-06-1174
Ein cyf JH-/10312/21

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

Government.Committee.Business@llyw.cymru

19 Awst 2021

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr diweddar ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch deiseb P-06-1174, yn gofyn inni ystyried y cais i atal Llywodraeth Cymru a grwpiau cyhoeddus rhag gwneud Cymru yn Genedl Noddfa, ac i beidio â chefnogi rhai o aelodau mwyaf bregus ein cymdeithas.

Cydraddoldeb a hawliau dynol yw conglfaen Llywodraeth Cymru, a'n gweledigaeth ar gyfer Cymru. Dyna hefyd yw conglfaen ein hunaniaeth genedlaethol. Nid wyf yn credu mai anwybyddu angen yw'r hyn sy'n ein diffinio fel Cymry, ond trugaredd sydd wedi ei hen sefydlu'n ddwfn yn ein hunaniaeth. Nid oes amheuaeth mai'r gofal a'r trugaredd hwn tuag at ein gilydd, yn enwedig yn ystod y cyfnod eithriadol ansicr yma, sydd wedi arwain mwy o bobl nag erioed i ddewis ymddiried unwaith eto yn y Llywodraeth hon.

Datblygwyd cynllun Cenedl Noddfa drwy ymgynghoriad agored dros gyfnod 3 mis, a ddechreuodd ar 22 Mawrth 2018 ac a orffennodd ar 25 Mehefin 2018. Gwnaethom gwrdd â phobl a oedd yn chwilio am noddfa a gwasanaethau cyhoeddus ar draws Gymru a gwrando arnynt, cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn agored i'r cyhoedd gael gwneud sylwadau. Gweler copi cryno o ymatebion yr ymgynghoriad yma. Fel yr eglurwyd yn glir yn yr adroddiad, "Yn gyffredinol, mae'r

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ymatebion i’r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth sylweddol i’r cynigion yn y fersiwn ddrafft o Gynllun Cenedl Noddfa.”

Nod Cynllun Cenedl Noddfa yw sicrhau bod y bobl sy’n chwilio am noddfa yn gallu ailsefydlu eu bywydau yma. Yn ogystal â hynny, mae am sicrhau eu bod yn gallu dod yn rhan o’n cymunedau, a defnyddio eu sgiliau a’u profiad i’r graddau llawnaf. Mae ymrwymiad y Llywodraeth hon i Gynllun Cenedl Noddfa, a’r bobl y mae am eu cefnogi, yn gadarn o hyd.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice